



Dilynwch y saethau i wybod sut caiff syniad ei droi'n ffilm...


Datblygu




Cynhyrchydd



Cyfarwyddwr



Sgriptiwr sgrin



Cyfarwyddwr castio

Troi syniad yn sgrïpt




Rheoli'r cynhyrchiad



Cynhyrchydd llinell



Rheolwr lleoliad



Cyfarwyddwr cynorthwyl


Cynllunio a threfnu gofalus




Technegol




Cyfarwyddwr ffotograffiaeth




Giaffar



Grip



Cymysgydd sain




Goruchwylydd sgrïpt


Gwneud yn siŵr ei fod i gyd yn cael ei ddal yn berffaith



Crefft




Dylunydd y cynhyrchiad



Dylunydd gwisgoedd



Dylunydd gwallt a cholur



Rheolwr adeiladu




Dylunydd effeithiau arbennig


Creu golwg y ffilm



Ôl-gynhyrchu



Golygydd




Lliwydd



Golygydd sain




Cynhyrchydd VFX



Isdeitlydd


Siapio a rhoi sglein i'r cynnyrch terfynol




Gwerthiant a dosbarthu



Gweithredwr dosbarthu



Rhaglennydd



Rheolwr marchnata

Gwerthu'r ffilm a gwneud yn siŵr bod pobl yn ei gweld



Y gynulleidfa (chi a fi)

Pwy sy'n creu ffilm?



Supported using public funding by
ARTS COUNCIL
ENGLAND

INTO
FILM

ScreenSkills

Sut mae ffilm yn cael ei chreu

Mae pawb yn hoffi gwyllo ffilm dda, boed yn y sinema, ar y teledu neu ar eu ffôn. Ond dydi pawb ddim yn gwybod sut mae ffilm yn cael ei chreu. Dyma sut mae ffilm yn mynd o fod yn syniad ym mhen rhywun i fod yn ffilm ar y sgrin.

Datblygu

Mae ffilm neu ddrama deledu yn cychwyn â syniad. Efallai y daw'r syniad gan gyfarwyddwr, cynhyrchydd neu sgriptiwr sgrin. Pan fydd pawb yn cytuno ei fod yn syniad da, bydd y cynhyrchydd yn codi'r arian i dalu am y ffilm a bydd y cyfarwyddwr castio'n dod o hyd i'r actorion gorau i'r rhannau.

Rheoli'r cynhyrchiad

Wedyn bydd llawer o waith cynllunio'n digwydd. Bydd y cynhyrchydd llinell yn cyfrifo faint o arian gall pob adran ei wario. Bydd y rheolwr lleoliadau'n dod o hyd i le i saethu'r ffilm. Bydd y cyfarwyddwr cynorthwyol yn dewis ym mha drefn y caiff y ffilm ei saethu. (Anaml y bydd ffilmiau'n cael eu saethu yn y drefn maen nhw'n ymddangos ar y sgrin.)

Crefft

Mae dylunydd y cynhyrchiad yn penderfynu sut olwg fydd ar y ffilm. Bydd yn gweithio gyda'r dylunydd gwisgoedd, sy'n arwain y tîm sy'n creu'r gwisgoedd, a'r dylunydd gwallt a cholur, sy'n rheoli'r tîm sy'n steilio'r gwalltiau, y wigiau a'r colur. Mae'r dylunydd adeiladu'n goruchwyllo'r tîm sy'n creu'r setiau.

Technegol

Pan mae'r ffilmio'n cychwyn, bydd y cyfarwyddwr ffotograffiaeth yn gyfrifol am y saethiadau. Bydd y giaffar yn gwneud yn siŵr bod y goleuadau'n iawn a bydd y grip yn edrych ar ôl y standiau sy'n dal y camerâu. Bydd y cymysgydd sain yn recordio'r synau a bydd y goruchwyllydd sgript yn gwneud yn siŵr bod pawb yn dilyn y sgript yn gywir. Y cyfarwyddwr sy'n rheoli'r tîm yma.

Ôl-gynhyrchu

Unwaith y bydd golygfa wedi'i ffilmio, bydd y darn o ffilm (footage, neu 'rushes') yn cael ei anfon i'r golygydd. Bydd y golygydd yn gweithio gyda'r cyfarwyddwr i roi'r stori at ei gilydd o'r gwahanol olygfeydd sydd wedi'u saethu. Wedyn caiff y sain, y gerddoriaeth, y lliw a'r effeithiau arbennig eu hychwanegu. Yn olaf, caiff yr isdeitlau eu creu.

Gwerthiant a dosbarthu

Y peth nesaf yw cael y ffilm i'r sgrin, er mwyn i'r gynulleidfa – chi a fi – ei gweld hi. Mae gweithredwyr dosbarthu yn taro bargeinion gyda sinemâu, sianeli teledu a phlatfformau eraill fel Netflix ac Amazon. Maen nhw'n cytuno ble caiff ffilmiau eu dangos ac am ba hyd. Bydd rhaglennwyr sinema a theledu yn dewis y ffilmiau ac yn penderfynu faint o'r gloch i'w dangos. Bydd rheolwyr marchnata yn helpu i roi gwybod i'r cynulleidfaoedd bod y ffilmiau ar fin cyrraedd ac yn eu helpu i deimlo'n gyffrous ynglŷn â chael eu gweld.

Pwy sy'n creu ffilm?

Cynhyrchydd

Y cynhyrchydd yw'r bos. Bydd y cynhyrchwyr yn gyfrifol am y cynhyrchiad cyfan. Nhw sy'n codi'r arian ac yn cyflogi'r cyfarwyddwr.

Cyfarwyddwr

Y cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am yr hyn fydd yn ymddangos o flaen y camera. Mae cyfarwyddwyr yn gweithio gydag actorion ac yn penderfynu pryd mae'r ffilmio'n dechrau ac yn gorffen ar olygfa. Nhw sy'n dweud: "action" a "cut".

Sgriptiwr sgrin

Y sgriptiwr sgrin sy'n ysgrifennu'r stori. Bydd yn ysgrifennu'r ddeialog rhwng yr actorion a phopeth sy'n digwydd yn y ffilm.

Cyfarwyddwr castio

Y cyfarwyddwr castio sy'n dod o hyd i'r actorion. Mae arnyn nhw angen pobl sy'n edrych yn iawn i'r rhan ac sydd â'r sgiliau iawn fel actorion. Efallai y byddan nhw hefyd eisiau pobl sy'n enwog, fel bod pobl eisiau dod i weld y ffilm.

Cynhyrchydd llinell

Mae'r rheolwr llinell yn cyfrifo sut dylai'r arian gael ei wario. Mae'r cynhyrchwyr llinell yn cyflogi'r criw. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pawb ar y set yn ddiogel, ac yn cadw popeth yn drefnus.

Rheolwr lleoliadau

Bydd y rheolwr lleoliadau'n dod o hyd i'r lleoedd gorau i saethu'r ffilm – boed hynny ar drên, ar gopa mynydd neu mewn anialwch. Maen nhw'n cael caniatâd y person sy'n berchen ar y lleoliad ac yn ei gadw mewn cyflwr da.

Cyfarwyddwr cynorthwyol

Bydd y cyfarwyddwr cynorthwyol yn cynllunio'r drefn ar gyfer saethu'r olygfeydd. Mae cyfarwyddwyr cynorthwyol yn helpu'r cyfarwyddwr i benderfynu ble mae angen i'r camerâu fod pan mae'r cyfarwyddwr yn brysur yn gweithio gyda'r actorion.



Dylunydd y cynhyrchiad

Dylunydd y cynhyrchiad sy'n penderfynu sut bydd y ffilm yn edrych, a hynny ar bopeth o'r gwaith celf ar y teitlau i'r propiau ac arddull y setiau.



Dylunydd gwisgoedd

Bydd y dylunydd gwisgoedd yn dylunio neu'n prynu'r gwisgoedd. Maen nhw'n goruchwyllo'r timau sy'n creu'r gwisgoedd ac yn trwsio dillad os byddan nhw'n torri yn ystod y ffilmio.



Dylunydd gwallt a cholur

Y dylunydd gwallt a cholur sy'n penderfynu sut beth fydd steil y gwalltiau a'r colur. Maen nhw'n prynu'r wigiau ac yn trefnu'r tîm sy'n cael yr actorion yn barod i fynd ar y set.



Rheolwr adeiladu

Bydd y rheolwr adeiladu'n cyflogi'r seiri coed, y plastrwyr a'r peintwyr sy'n adeiladu'r setiau ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n edrych fel mae dylunydd y cynhyrchiad eisiau iddyn nhw edrych.



Dylunydd effeithiau arbennig

Mae'r dylunydd effeithiau arbennig yn creu'r byd dychmygol ar y set. Gall eu tîm wneud iddi fwrw glaw neu fwrw eira, beth bynnag yw'r tywydd. Maen nhw'n creu ffrwydradau, yn cychwyn tanau ac yn gwneud angenfilod.



Cyfarwyddwr ffotograffiaeth

Y cyfarwyddwr ffotograffiaeth sy'n gyfrifol am y camerâu a gweithredwyr y camerâu. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod y lluniau'n edrych yn dda.



Giaffar

Mae'r giaffars yn helpu'r cyfarwyddwr ffotograffiaeth i wneud lluniau hardd drwy greu'r golau iawn. Efallai y byddan nhw'n rheoli'r golau naturiol drwy ddefnyddio ffiler neu'n penderfynu ar safle gorau'r goleuadau ar y set.



Grip

Mae'r grips yn gyfrifol am y standiau sy'n dal y camerâu. Maen nhw'n gweithio'r craenau a'r platfformau-ar-olwynion i roi camerâu arnyn nhw fel bod y camerâu'n symud yn iawn.




Cymysgydd sain

Mae'r cymysgydd sain yn recordio'r sain yn ystod y ffilmio – y ddeialog a sain yr amgylchedd yn y cefndir.



Goruchwyllydd sgript

Mae'r goruchwyllydd sgript yn gwneud yn siŵr bod popeth wedi'i ffilmio fel mae'r sgript yn dweud. Byddan nhw'n gwneud nodiadau ar unrhyw newidiadau ac yn eu rhoi i'r golygydd.



Golygydd

Mae'r golygydd yn rhoi'r holl 'rushes' (darnau o ffilm) o'r gwahanol olygfeydd at ei gilydd i adrodd y stori yn y ffordd orau bosib.



Lliwydd

Mae ffilmiau'n cael eu saethu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosib i addasu'r lliw. Mae'r lliwydd yn ychwanegu'r lliw yn ystod y broses olygu, i'w wneud i edrych mor dda â phosib.



Golygydd sain

Mae'r golygydd sain yn ychwanegu'r effeithiau sain. Bydd cerddoriaeth yn cael ei hychwanegu ar y pwynt yma hefyd.



Cynhyrchydd VFX

Mae'r Cynhyrchydd VFX yn rhoi popeth sy'n methu cael eu ffilmio i mewn – fel ceir yn ffrwydro. Maen nhw'n rheoli tîm sy'n rhoi'r rhain i mewn gan ddefnyddio delweddau wedi'u creu gan gyfrifiaduwr.



Isdeitlydd

Pan fydd y gwaith golygu wedi'i orffen, bydd Isdeitlydd yn ysgrifennu'r ddeialog fel ei bod yn ymddangos ar y sgrin er mwyn i bobl sy'n methu â chlywed gael mwynhau'r ffilm. Bydd rhai'n cyfieithu'r ddeialog i ieithoedd eraill.



Gweithredwr dosbarthu

Mae'r gweithredwr dosbarthu'n taro bargeinion gyda sinemâu, cwmnïau teledu a phlatfformau fel Netflix a Hulu. Nhw sy'n dweud am ba mor hir maen nhw'n cael dangos y ffilmiau.



Rhaglennydd

Bydd rhaglennwyr sinema a theledu yn dewis y ffilmiau ac yn penderfynu ar amserau gorau'r wythnos neu'r dydd i'w dangos.



Rheolwr marchnata

Mae'r rheolwr marchnata yn gadael i bobl fel chi a fi wybod bod y ffilm ar ei ffordd. Byddan nhw'n creu hysbysebion, yn ysgrifennu cylchlythyrau ac yn rhannu'r neges ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cynhyrchwyd gan ScreenSkills mewn cydweithrediad ag Into Film a chyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

Dyluniad gan Dave Gray. iamdavegray.com
Yn seiliedig ar gysyniad gwreiddiol gan Ian Murphy ac Allan Burrell. compositingcoach.com